CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
9 Medi 2020
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, S Parry, E Huws, E Law-Shui Nicholson, R G Parry, G Parry, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng J Earnshaw	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.07.20 - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng E Huws yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes chwarae CCTV – Cytunwyd I gwneud ymholiadau gyda'r ysgol
4.2	"Hydrant" wrth ymyl yr eglwys – Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir wedi dod a'r mater at sylw Dwr Cymru
4.3	Dewis cynrchiolwyr: Unllais Cymru – Cyng I Roberts, Ysgol Bryngwran – Cyng E Huws, Maes Chwarae- Cyng E Huws, E Law-Shui Nicolson, S Parry, Iechyd a Diogelwch – Cyng, R G Parry, G Parry a gofyn I J Earnshaw, Llwybrau cyhoeddus – E Law-Shui Nicholson
4.4	Llwybrau Cyhoeddus – Gofynwyd I'r Clerc cael copi o map llwybrau yr ardal
4.5	Cyflwyniadau aelodau - Aelodau i baratoi cyflwyniadau, pam eu bod wedi dewis bod yn gynghorydd cymunedol a pha newidiadau yr hoffent eu gweld yn y gymuned (cynigiwyd gan y Cynghorydd E Law-Shui Nicholson). Cafwyd cyflwyniad byr gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd E Huws. Gall aelodau eraill wneud hynny os dymunant yn y cyfarfod nesaf
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd y bydd rhan newydd y fynwent yn cael ei defnyddio cyn bo hir. Bydd angen i'r cyngor drefnu llwybr ac ystyried arwyddion newydd. Gofynnodd hefyd a fydd y cyngor yn gallu cynnal Gwasanaeth Dydd y Cofio eleni. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau.
	Llofnod…….Cadeirydd 15.10.20

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	FPL/2020/123 Plas Llechylched - Mae'r cyngor yn bryderus ynghylch faint o draffig a fydd yn pasio Plas Crigyll, Bryngwran, croesfan yr ysgol yn Lon Salem a thrwy bentref Bryngwran. Mae goryrru gormodol eisoes ar y ffordd dan sylw (hyd at 60 mya) sy'n gul mewn rhannau ac mae gan y ffordd sawl troad. Os caniatawyd y cais, mae'r cyngor cymunedol yn awgrymu bod y terfyn cyflymder yn cael ei ostwng i 30 mya o Plas Llechylched. Mae'r Cynghorydd R G Parry wedi galw'r cais i'r pwyllgor
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Ymddiswyddiad – Sioned Williams
7.2	Ymddiswyddiad – Kevin Humphreys. Ar ôl derbyn dau ymddiswyddiad mae'r Clerc wedi trefnu hysbysebion i lenwi'r swyddi gwag
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Adroddiad Playsafety - Bydd y Clerc yn darllen trwy'r adroddiad ac yn rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf
8.2	Asesiad risg y maes chwarae – Mae'r Clerc wedi gwneud asesiad risg Covid-19 a wed ail agor y maes chwarae
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Playsafety £94.80
9.2	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Cysgodfannau Bws
0.2	Gwirfoddolwyr Iorwerth Arms
	Llofnod…….Cadeirydd 15.10.20